

## Cofio menywod nodedig

Yng Nghylchlythyr Rhagfyr 2012 soniais fod Cyngor Dinas a Sir Abertawe yn dechrau cynllun Placiau Glas a bod aelodau lleol AMC/WAW yn benderfynol o sicrhau y byddai rhai o'r placiau hyn yn coffáu menywod lleol.



Ffotograff o Emily Phipps a atgynhyrchir trwy garedigrwydd Archifau'r Athrofa

Rwy'n falch iawn i ddweud ein bod wedi bod yn llwyddiannus a bod un o'n cynigion wedi cael ei dderbyn. Gosodir plac er cof am y ffeminydd, y brifathrawes a'r ymgyrchydd Emily Phipps ar yr adeilad sydd bellach ar safle Ysgol Trinity Place lle bu hi'n brifathrawes. Bwriedir ei ddadorchuddio'n ddiweddarach eleni ac rydym wedi gofyn am gael cynrychiolaeth gref o Archif Menywod Cymru yn y seremoni.

Bwriadwn gynnig un neu ddau enw i'w hystyried gan bwyllgor y Placiau Glas bob blwyddyn. Mae sôn fod y Sefydliad Materion Cymreig yn annog cynlluniau tebyg ledled Cymru, felly cadwch lygaid ar agor am gynlluniau cyffelyb mewn trefi a dinasoedd eraill.

Ar ôl clywed eitem ar Woman's Hour (25 Ionawr) am brinder strydoedd, adeiladau, a.y.b. wedi'u henwi ar ôl menywod o'u cymharu â'r rhai sy'n anrhydeddu dynion, penderfynais dreulio orig gyda mynegai cyfeiriadur strydoedd lleol (*Phillips Street Atlas: Cardiff, Swansea and the Valleys*) i weld beth gawn i hyd iddo. Erbyn cyrraedd AL roeddwn wedi ymlâdd ond hyd yn oed wedyn roeddwn wedi cael hyd i 74 o enwau dynion o'u cymharu â 59 o enwau menywod. Doedd hynny ddim yn rhy wael, heblaw mai coffáu Alexandra yr oedd 43 ohonynt. Gan ddrwgdybio rhagfarn frenhinol edrychais ar Edward (Ymwelodd Edward VII a'r Frenhines Alexandra ag Abertawe i agor dociau newydd cyn ac ar ôl eu coronni). Gan gymryd yn ganiataol fod pob Edward yn cyfeirio at y brenin, dim ond 34 ohonynt oedd yna. Ond a ddylen ni gyfrif aelodau'r teulu brenhinol, mwy na seintiau, cymeriadau chwedlonol neu hyd yn oed wragedd neu ferched dynion pwerus? O edrych am leoedd yn cynnwys enw cyntaf ac ail unigolyn, ymhlith yr Aau roedd



10 dyn o'u cymharu â 2 fenyw:



Clos Amy Johnson yng Nghasnewydd a Gerddi Averil Vivian yn Abertawe. Averil oedd enw 3<sup>edd</sup> wraig a merch Henry Hussey Vivian, AS, Arglwydd Faer 1<sup>af</sup> Abertawe a pherchennog gwaith copr enfawr Hafod a busnesau eraill. Roedd y ddwy wraig hyn yn boblogaidd yn lleol am eu gwaith elusennol a chymunedol. Does gen i ddim syniad beth oedd cysylltiad Amy Johnson â Chasnewydd, os oedd un o gwbl. Mae'n rhesymol casglu bod defnyddio enwau 1<sup>af</sup> ac 2<sup>il</sup> yn awgrymu bod person yn cael ei goffáu yn ei rinwedd ei hun, ac felly efallai mai cyfrif yr enwau llawn hyn ddylen ni, ac ymgyrchu o'u plaid. Anfonwch awgrymiadau neu unrhyw wybodaeth sydd gennych am ymgyrchoedd tebyg at y Golygydd [newsletter@womensarchivewales.org](mailto:newsletter@womensarchivewales.org). Gadewch i ni godi ymwybyddiaeth o'n cyn-famau nodedig a sicrhau bod eu henwau'n cael y sylw dyladwy!

Jenny Sabine.

Y newyddion diweddaraf am blaciau Abertawe. Gofynnwyd i AMC enwebu aelod i'w ddadorchuddio!


## Wikipedia

Mae Deb Checkland, un o'n haelodau, wedi tynnu sylw at ymgyrch i annog menywod i gyfrannu at Wikipedia, y gwyddoniadur ar-lein ([www.wikipedia.org](http://www.wikipedia.org)). Gall unrhyw un ychwanegu cofnod, ond ar hyn o bryd mae llawer mwy o ddynton na menywod yn gwneud hynny, ac o'r herwydd mae llawer mwy o fywgraffiadau o ddynton nag o fenywod arno.

Un o amcanion pennaf AMC / WAW yw codi ymwybyddiaeth o hanes menywod yng Nghymru, a hoffem annog aelodau ac eraill sydd â diddordeb yn y maes i ychwanegu'u cofnodion eu hunain neu eu hanfon atom ni i'w hychwanegu. Gall cofnodion fod yn Gymraeg neu'n Saesneg.

Ar hyn o bryd rwy'n gweithio ar gofnod am Emily Phipps, prifathrawes, ffeminydd ac actifydd dros undeb llafur yn Abertawe, a byddaf ymhen amser yn cynhyrchu canllaw 'sut i fynd ati'. Ond yn y cyfamser, os oes gennych chi brofiad o gyfrannu at Wikipedia, beth am ychwanegu cofnod ar unrhyw agwedd ar hanes menywod yng Nghymru sy'n eich diddori. Caiff Wikipedia ei ddefnyddio ledled y byd ac felly mae'n ddull effeithiol o sicrhau bod hanes menywod yng Nghymru yn dod yn fwy hysbys.

Avril Rolph



## Taflen newydd

Cadwch eich llygaid ar agor am ein taflen newydd a fydd i'w gweld yn nigwyddiadau AMC/WAW ledled Cymru, gan ddechrau gyda'i 'lansio' yn Nigwyddiad Diwrnod Rhyngwladol Menywod yn y Barri ar yr 8<sup>ed</sup> Mawrth.

Mae'r ffurflen gais aelodaeth ar yr ochr arall yn fwy o faint ac yn fwy eglur yn awr. Defnyddiwch bob cyfle i ddisbarthu'r daflen o.g.y.dd. Cysylltwch ag unrhyw aelod o'r Pwyllgor am gyflenwad ohonynt.

## Women's Library – diweddariad

Bydd llawer ohonoch yn cofio bod Prifysgol Fetropolitan Llundain wedi penderfynu peidio â chefnogi'r Women's Library o hyn ymlaen ond ei bod hi a'i staff mewn cartref newydd yn yr LSE bellach. Bydd y



llyfrgell yn cau ar ei safle presennol ar 23<sup>ain</sup> Mawrth. Bydd ar gau wedyn hyd nes y bydd gwasanaeth cyfyngedig yn ailddechrau ddechrau Gorffennaf, ac yna'n agor yn llawn ym mis Hydref.

Yn groes i'r drefn mewn llyfrgelloedd prifysgol gan amlaf, mae'r LSE yn caniatáu mynediad rhad ac am ddim i'r cyhoedd i'w holl gasgliadau, a bydd ar agor am oriau hirion ar hyd y flwyddyn. Mae cefnogaeth Cronfa Treftadaeth y Loteri i lyfrgell yr LSE a'r Women's Library wedi sicrhau hyn. Caiff yr holl gasgliadau eu cadw mewn storffeydd priodol ar y safle, a bydd yno Ystafell Ddarllen bwrpasol yn ogystal ag ystafell addysgu wedi'i hailwampio lle gall disgyblion ysgol, ymchwilwyr ac aelodau'r cyhoedd ddefnyddio dogfennau. At hyn bydd gofod ar gyfer arddangosfeydd ger yr Ystafell Ddarllen Ymchwil a bydd hyn yn dod â chynulleidfaoedd newydd i'r Women's Library a'r LSE.

<http://www2.lse.ac.uk/library/newsandinformation/womenslibraryatLSE/home.aspx>

## O'r Gadair

Rwy'n falch i groesawu aelodau newydd sydd wedi ymuno â ni eleni. Fodd bynnag, mae'n drist cofnodi bod dwy o'n haelodau, Ann Morgan and Jennifer Cole, wedi marw.

Y digwyddiad cyntaf eleni oedd ymweliad â Gwasanaeth Archifau Gwent yn ei gartref newydd. Roedd hi'n ddiwrnod difrifol o oer ond doedd y rhai a fentrodd i Lyn Ebwy ddim yn difaru - cawsom sgwrs mor ddiddorol gan yr Archifydd, Gary Tuson, ynglŷn â sut y cafodd yr hen adeilad ei addasu i fod yn gartref i wasanaeth archifau yn yr 21ain ganrif, ac am ei waith. Yn dilyn hyn cafwyd taith o gwmpas yr adeilad - trawiadol iawn. Gobeithio y gallwn drefnu ymweliadau tebyg i archifdai eraill lle caiff casgliadau AMC/WAW eu cadw.

Ar hyn o bryd mae Avril Rolph a minnau'n cydweithio gydag Archifau Morgannwg i roi trefn ar gasgliad mawr o ddogfennau o Ganolfan Menywod Caerdydd, ac i drefnu adneuo casgliad sylweddol arall o orllewin Cymru. Mae aelodau eraill yn brysur hefyd: yn paratoi ein cais am grant gan Gronfa Treftadaeth y Loteri (CTL) ar gyfer ein prosiect hanes llafar arfaethedig am 'Fenywod mewn Diwydiannau Ysgafn 1945-1970'; yn trefnu sesiwn AMC/WAW yn Eisteddfod Genedlaethol Dinbych ym mis Awst; yn diweddar'u wefan; ac yn cynllunio'n cynhadledd ym mis Hydref eleni.



Ymweliad ag Archifau Gwent

Yn ddamcaniaethol, dylai'r gynhadledd symud o gwmpas y wlad bob blwyddyn, gan ymweld â phob cwr o Gymru yn ei dro. Yn ymarferol, fodd bynnag, mae cyfyngiadau ar ble gellir ei chynnal. Yn bwysicaf oll, mae angen ei chynnal mewn man lle mae digon o aelodau lleol i wneud y trefniadau angenrheidiol ac i groesawu'r digwyddiad. Mae'n rhaid wrth gysylltiadau trafndiaeth da a llety hwylus a rhesymol ei bris. Eleni cynhelir y gynhadledd ym Merthyr Tudful ac er nad yw'n bell o'r Fenni lle cynhaliwyd y gynhadledd y llynedd, mae gan y dref hanes ac amgylchedd gwahanol iawn ac rwy'n siŵr y bydd yr un mor bleserus. Gobeithio y gallwn symud ymhellach i'r gogledd neu'r gorllewin yn 2014: byddem yn croesawu awgrymiadau am fannau cyfarfod a chynigion i helpu yn fawr iawn!

Cofnodion y pwyllgor. Bu'n rhaid gohirio cyfarfod mis Ionawr oherwydd eira sydyn ac fe'i cynhaliwyd o'r diwedd yn Chwefror. Gan nad oedd Rosemary Scadden, ein Hysgrifennydd Cofnodion, y gallu bod yn bresennol, rhaid i mi adrodd ar yr hyn a drafodwyd. Cynhadledd fideo rhwng Abertawe a Bangor gawson ni. Derbyniwyd sawl adroddiad am y gwaith sydd ar y gweill. Cafwyd newyddion da fod Darlith Goffa Ursula Masson yn cael ei chynnal eleni eto (ar Ddiwrnod Rhyngwladol Menywod, 8 Mawrth), yn rhannol trwy gyfrwng nawdd gan NewLaw o Gaerdydd, trwy ddylanwad nith Ursula, Helen Molyneux. At hyn, rydym wedi derbyn rhodd hael ddiennw gan un o'n haelodau a fydd yn caniatáu i ni sefydlu cronfa i gefnogi darlithoedd a drefnir ac a gynhelir gan Brifysgol Morgannwg yn y dyfodol. Rydym yn dra diolchgar i'r Brifysgol am goffáu Ursula fel hyn a pharhau â'i hymrwymiad i gefnogi hanes menywod yng Nghymru.

Mae'n cynlluniau ar gyfer cynhadledd 2013 yn dod yn eu blaenau a chafwyd ambell gynnis am gyflwyniad eisoes. Mewn cyfarfod gyda Liz Fahy, sy'n gwesteia'n gwefan, a rheolwraig y wefan, Caroline Fairclough, llwyddwyd i ddatrys rhai problemau a chytunwyd ar sut i sicrhau bod y cynnwys yn parhau'n gyfamserol. Roeddem wedi trafod ein taflen aelodaeth newydd trwy e-bost ac rwy'n falch gallu adrodd ei bod wedi'i hargraffu ac y caiff ei lansio yn y ddarlith ar Ddiwrnod Rhyngwladol Menywod. Adroddodd Catrin Stevens fod ffotograffau, dogfennau a recordiadau y cynllun hanes llafar peilot wedi'u derbyn gan Archif Sgrin a Sain Cymru yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru a'u bod yn barod i gefnogi ein cais am grant i CTL. Mae hi wedi cyflwyno cais cychwynnol i'r Loteri ac yn disgwyl ymateb.

Nododd Sue Trevelyan-Jones fod digwyddiad ar gyfer Diwrnod Rhyngwladol Menywod yng ngogledd Cymru ar 9 Mawrth. Cyflwynodd Catrin adroddiad am sesiwn AMC yn Eisteddfod Dinbych. Mae sawl aelod wedi mynychu cyfarfodydd gan CyMAL i drafod prosiectau i goffáu'r Rhyfel Byd Cyntaf. Trafodwyd prosiect posibl i gasglu hanesion ynglŷn â sut yr effeithiodd y rhyfel ar fywydau menywod yng Nghymru. Trafodir hyn ymhellach yn ein cyfarfod nesaf (ym mis Mawrth).

Cytunwyd ar restr o sefydliadau i'w gwahodd i fod yn Aelodau sefydliadol o AMC/WAW. Unwaith eto soniwyd am wahodd menywod blaenllaw i ymaelodi â'r Archif a byddwn yn trafod hyn ymhellach yn ein cyfarfod ym mis Mai. Byddem yn gwerthfawrogi unrhyw awgrymiadau. Mae'r pwyllgor bob amser yn croesawu sylwadau a syniadau gan aelodau, ac yn falch o'r rhai a dderbyniwyd yn ddiweddar ac a gaiff eu hystyried yn ein cyfarfod nesaf.

*Jenny Sabine.*

## Newyddion Trist

Yn ddiweddar collwyd dwy a fu'n aelodau o'r Archif ers cryn amser.

Bu farw Jennifer Cole ddechrau Rhagfyr. Bydd y rhai ohonoch oedd yn y Gynhadledd yn ei chofio yn aelod bywiog o'n panel ar y Sul.

Meddai Deirdre Beddoe:

Roedd Jennifer yn un o'r menywod cyntaf i chwarae rhan flaenllaw ym mudiad yr undebau llafur yng Nghymru. Cynrychiolai'r Undeb Fancio a Chyllid ar lefel y DU a byddai yn sefyll dros hawliau menywod bob amser ac roedd yn drafodwraig fedrus iawn. Defnyddiodd ei sgiliau tra'n aelod blaenllaw o Gynulliad Menywod Cymru ac mewn llywodraeth leol yn y Barri, fel aelod Llafur dros ward Dyfan. Talodd Audrey Jones sy'n aelod o'r Archif, ac a fu'n ffrind iddi am dros ddeugain mlynedd deyrnged gynhwysfawr i Jennifer yn ei hangladd yn Lincoln ym mis Rhagfyr. Disgrifiodd Audrey ei ffrind agos fel 'Saesnes ecsentrig' ac un a fyddai'n gadael 'twll siâp-Jennifer' mawr yn mywydau pawb oedd yn ei hadnabod.



*Jennifer Cole yng Nghynhadledd y Fenni, 13eg Hydref 2012.*

Ychydig ddyddiau yn ddiweddarach derbyniwyd y neges ganlynol oddi wrth ferch Ann Morgan.

'Dim ond i roi gwybod i chi gyda thristwch, fod ein mam, Ann Morgan, wedi marw'n heddychlon ar 19eg Rhagfyr 2012 yn ei chartref, gyda ni i gyd o'i chwmpas. Roedd hi'n fam, yn fam-gu ac yn ffrind a gâi ei charu'n fawr. Pleidiai hawliau menywod, roedd yn actifydd Llafur, yn athrawes a cherddor, yn chwaraewraig tennis, yn gythraul o chwaraewraig *bridge* ac yn darllen y Guardian yn frwd.'

## Gwefan

Ymddiheuriadau lu am y trafferthion diweddar. Gobeithio bod y rhain bellach wedi'u datrys.

Cadwch lygaid allan am ffotograffau o ddigwyddiadau'r Archif yn adran yr aelodau. Byddem yn falch i dderbyn eich lluniau chi o ddigwyddiadau i'w cynnwys yma. Dim ond aelodau sydd wedi mewngofnodi i'r adran fydd yn gallu'u gweld. Rydym yn gobeithio y byddwch yn anfon gwybodaeth atom am eich diddordebau, eich ceisiadau ymchwil a.y.b. i'w postio yn yr adran hon hefyd.

## Digwyddiadau Diwrnod Rhyngwladol Menywod

Bydd adroddiadau am y rhain yn rhifyn Mehefin y Cylchlythyr, ond anfonwch adroddiadau am unrhyw ddigwyddiadau cyn gynted ag y bo modd at [newsletter@womensarchivewales.org](mailto:newsletter@womensarchivewales.org)

Croesewir cyfraniadau gan bob aelod i'r Cylchlythyr. Os gallwch anfon eich cyfraniad yn ddwyieithog byddem yn gwerthfawrogi hynny'n fawr. Anfonwch eich cyfraniadau at:

[newsletter@womensarchivewales.org](mailto:newsletter@womensarchivewales.org) o.g.y.dd

### Dyddiad cyflwyno ar gyfer y rhifyn nesaf Dydd Gwener 17<sup>eg</sup> Mai 2013

Os hoffech chi gopi print bras o'r Cylchlythyr hwn yn Gymraeg neu yn Saesneg, cysylltwch â Caroline ar y cyfeiriad e-bost uchod neu ffoniwch 01873 890540.

Mae'r Cylchlythyr hwn ar gael i aelodau ar-lein hefyd ar [www.womensarchivewales.org](http://www.womensarchivewales.org), yn yr Adran i Aelodau.

Golygwyd y rhifyn hwn gan Caroline Fairclough, ac fe'i cyfieithwyd gan Catrin Stevens.